

Llawdriniaeth laser ar y gornbilen i wella golwg ar ôl llawdriniaeth flaenorol ar y llygad

*Mae arweiniad
Techlechyd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth laser ar y gornbilen yn y GIG i wella golwg ar ôl llawdriniaeth flaenorol ar y llygad. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio problemau gyda'r golwg ar ôl llawdriniaeth flaenorol ar y llygad na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau o wybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 8.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon fel mater o drefn fel triniaeth i bobl â phroblemau gyda'u golwg ar ôl llawdriniaeth flaenorol ar y llygad, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dim ond offthalmolegwyr sydd wedi'u hyfforddi'n benodol ym maes llawdriniaeth ar y gornbilen ddylai gyflawni'r driniaeth, a hwy hefyd ddylai benderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth hon.

Sylwadau eraill gan NICE

Mae'n bwysig bod cleifion yn hysbysu eu hymarferwyr eu bod wedi cael y math hwn o lawdriniaeth laser os cânt eu profi am glawcoma neu os cânt lawdriniaeth cataract.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer problemau gyda'r golwg ar ôl llawdriniaeth flaenorol ar y llygad. Dylai eich tîm gofaliach iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha driniaethau eraill sydd ar gael.

Llawdriniaeth laser ar y gornbilen i wella golwg ar ôl llawdriniaeth flaenorol ar y llygad

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'cywiro gwall plygiannol â laser yn dilyn llawdriniaeth offthalmig gan ddefnyddio technegau lleiaf ymyrrol'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae gwallau plygiannol yn cynnwys myopia a hyperopia (golwg byr a hir) ac astigmatedd (golwg aneglur), a gall ddatblygu ar ôl llawdriniaeth ar y llygad fel llawdriniaeth cataract (gosod lens newydd yn lle lens

gymylog) neu drawsblaniad cornbilen (gosod haen glir o feinwe ar flaen y llygad).

Fel arfer mae angen i bobl â gwallau plygiannol wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd i gywiro'r broblem, ond weithiau mae angen triniaeth gywiro bellach. Mae hyn yn cynnwys gwneud toriadau bach yn y llygad i addasu'r gornbilen, neu lawdriniaeth cataract.

Mae llawdriniaeth laser yn cynnwys defnyddio laser i newid siâp y gornbilen yn barhaol er mwyn gwella'r golwg. Mae tair triniaeth wahanol: ceratectomi plygiannol (PRK), ceratomileusis epithelaidd laser (LASEK) a charetomileusis laser in situ (LASIK). Cynhelir pob un ohonynt o dan anesthetig lleol.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod llawdriniaeth laser yn addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'w chael.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar chwe astudiaeth ar y triniaethau hyn.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn pedair astudiaeth o 207 o gleifion (cynhaliwyd llawdriniaeth ar 275 o lygaid) a gafodd LASIK ar ôl mathau gwahanol o lawdriniaeth ar y llygad (gan gynnwys llawdriniaeth blygiannol ac amhlygiannol, mewnbllannu lens amlffocws neu drawsblaniad cornbilen), roedd golwg y cleifion wedi gwella pan gawsant archwiliad rhwng chwe mis a phum mlynedd ar ôl y driniaeth.

Mewn astudiaeth o 38 o gleifion (46 o lygaid) a gafodd LASIK ar ôl trawsblaniad cornbilen, roedd gan 29 allan o'r 46 o gleifion olwg arferol bum mlynedd ar ôl y driniaeth.

Mewn astudiaeth o 62 o gleifion (87 o lygaid) a gafodd LASIK ar ôl llawdriniaethau gwahanol ar y llygad, roedd nifer y llygaid â golwg arferol o 50% neu well wedi cynyddu o bedwar allan o 87 cyn y llawdriniaeth i 61 allan o 87 flwyddyn ar ôl y llawdriniaeth.

Mewn tair astudiaeth o 169 o gleifion â LASIK ar ôl llawdriniaeth ar y llygad, roedd angen ail driniaeth LASIK mewn 29 allan o 229 o lygaid er mwyn unioni problemau a oedd yn dal yn bodoli ar ôl y llawdriniaeth gyntaf.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nodau'r driniaeth oedd gwella golwg, lleihau gwallau mewn golwg, cynnal golwg da wrth wisgo sbectol, a gwella ansawdd bywyd.

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 256

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 48 o gleifion (57 o lygaid) a gafodd LASIK ar ôl trawsblaniad cornbilen, roedd golwg wedi gwaethygu mewn wyth allan o 52 o lygaid flwyddyn ar ôl y driniaeth.

Nodwyd tri llygad â golwg niwlog yr oedd angen triniaeth bellach arnynt mewn astudiaeth o 41 o gleifion (44 o lygaid) â PRK ar ôl trawsblaniad cornbilen.

Mewn dwy astudiaeth o 59 a 48 o gleifion (142 o lygaid) a gafodd LASIK ar ôl gosod lens newydd neu drawsblaniad cornbilen, nodwyd achosion o lygad sych mewn saith llygad. Yn yr astudiaeth o 59 o gleifion, defnyddiwyd iriad rheolaidd i drin hyn.

Yn yr astudiaeth o 48 o gleifion, gwelwyd y canlynol: pedwar llygad lle roedd celloedd newydd wedi tyfu yn y gornbilen yr oedd angen eu tynnu (rhwng wythnos a blwyddyn ar ôl y llawdriniaeth); pum llygad lle roedd angen cynnal ail drawsblaniad cornbilen ar gyfer naill ai astigmatedd parhaus neu chwyddo (rhwng wyth mis a thair blynedd ar ôl y llawdriniaeth); a phum llygad lle roedd y fflap a grëwyd yn y gornbilen yn ystod y driniaeth wedi symud ac wedi'i drin â phwythau, drwy dynnu'r fflap neu ei ailosod (o fewn wythnos i'r llawdriniaeth).

Dangosodd astudiaeth o 57 o lygaid a gafodd LASIK y canlynol: un llygad â gwaedu yn y retina saith diwrnod ar ôl y driniaeth, pedwar llygad lle roedd celloedd newydd wedi tyfu yn y gornbilen, dau lygad ag achosion newydd o astigmatedd, dau lygad lle daeth y fflap a grëwyd yn y gornbilen yn ystod y driniaeth yn rhydd a 14 o lygaid â phroblemau golwg yn ystod y nos (y cyfan tua naw mis ar ôl y driniaeth ar gyfartaledd).

O ran cleifion a gafodd LASIK ar ôl trawsblaniad cornbilen, cafodd achos o wrthod y gornbilen ei drin yn llwyddiannus mewn un llygad yn yr astudiaeth o 38 o gleifion.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gallai'r problemau damcaniaethol gynnwys: y gornbilen yn chwyddo neu greithiau ar y gornbilen; haenau allanol y gornbilen yn dod i ffwrdd (erydu cylchol) neu'n mynd yn ddiffygiol; gwaedu, crychau, gweddillion a llid yn y fflap yn y gornbilen; llewyrch o oleuadau; haint; a phoen.

Rhagor o wybodaeth am wallau plygiannol

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar wallau plygiannol, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â thriniaeth i 'gywiro gwall plygiannol yn dilyn llawdriniaeth offthalmig amhlygiannol'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG256

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8400-8

N2536 1P March 11

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes.

Ni chaniateir ei atgynhyrchu gan sefydliadau masnachol neu ar eu cyfer, nac at ddibenion masnachol, heb ganiatâd ysgrifenedig gan NICE.